# Erthygl 11 – Trefniadau ar y Cyd

## 11.01 Trefniadau i hyrwyddo lles

Gall y Cyngor neu'r Bwrdd Gweithredol, er mwyn hyrwyddo lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol ei ardal :

(a) lunio trefniadau neu gytundebau gydag unrhyw berson neu unrhyw gorff;
(b) cydweithredu â, neu hwyluso neu gydlynu gweithgareddau unrhyw berson neu unrhyw gorff; ac
(c) ymarfer ar ran y person neu'r corff hwnnw unrhyw rai o swyddogaethau'r person neu'r corff hwnnw.

## 11.02 TREFNIADAU AR Y CYD

(a) Gall y Cyngor sefydlu trefniadau ar y cyd gydag un neu fwy o Awdurdodau Lleol a/neu eu gweithrediaethau i gyflawni swyddogaethau nad ydynt yn swyddogaethau gweithredol mewn unrhyw un o'r Awdurdodau cyfranogol, neu gynghori'r Cyngor. Gall trefniadau o'r fath olygu penodi pwyllgor ar y cyd â'r Awdurdodau Lleol eraill hyn.
(b) Gall y Bwrdd Gweithredol sefydlu trefniadau ar y cyd gydag un neu fwy o Awdurdodau Lleol i gyflawni swyddogaethau sy'n swyddogaethau gweithredol. Gall trefniadau o'r fath olygu penodi pwyllgorau ar y cyd â'r Awdurdodau eraill hyn.
(c) Ac eithrio fel y nodir isod, gall y Bwrdd Gweithredol benodi aelodau o'r Bwrdd Gweithredol yn unig i bwyllgor ar y cyd, ac nid oes raid i'r aelodau hynny adlewyrchu cyfansoddiad gwleidyddol yr Awdurdod Lleol fel corff cyfan.
(d) Gall y Bwrdd Gweithredol benodi aelodau i bwyllgor ar y cyd o'r tu allan i'r weithrediaeth lle bo gan y pwyllgor ar y cyd swyddogaethau mewn rhan o ardal yr Awdurdod yn unig, a bod yr ardal honno yn llai na dwy ran o bump o'r Awdurdod yn ôl arwynebedd neu boblogaeth. Mewn achosion o'r fath, gall y weithrediaeth benodi i'r pwyllgor ar y cyd unrhyw gynghorydd sy'n aelod dros etholaeth a gynhwysir yn gyfan gwbl neu'n rhannol o fewn yr ardal. Nid yw'r gofynion ynghylch cydbwysedd gwleidyddol yn berthnasol i benodiadau o'r fath.

Gwelir manylion unrhyw drefniadau ar y cyd gan gynnwys unrhyw ddirprwyo i bwyllgorau ar y cyd yng nghynllun y Cyngor ar ddirprwyo yn Rhan 3 o'r Cyfansoddiad hwn.

## 11.03 Mynediad at Wybodaeth

(a) Mae'r Rheolau Mynediad at Wybodaeth yn Rhan 4 o'r Cyfansoddiad hwn yn gymwys.
(b) Os yw holl aelodau pwyllgor ar y cyd yn aelodau o'r Weithrediaeth ym mhob un o'r Awdurdodau cyfranogol, yna mae ei drefn mynediad at wybodaeth yr un fath â'r hyn sy'n gymwys i'r Weithrediaeth.
(c) Os yw'r pwyllgor ar y cyd yn cynnwys aelodau nad ydynt ar Weithrediaeth unrhyw Awdurdod cyfranogol, yna bydd y rheolau mynediad at wybodaeth yn Rhan VA o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn gymwys.

**11.04 Dirprwyo i ac o Awdurdodau Lleol eraill**

(a) Gall y Cyngor ddirprwyo swyddogaethau anweithredol i Awdurdod Lleol arall neu, mewn rhai amgylchiadau, i weithrediaeth Awdurdod Lleol arall.
(b) Gall y weithrediaeth ddirprwyo swyddogaethau gweithredol i Awdurdod Lleol arall neu i weithrediaeth Awdurdod Lleol arall mewn rhai amgylchiadau.
(c) Bydd y penderfyniad p'un ai derbyn dirprwyo o'r fath o Awdurdod Lleol arall yn cael ei gyfyngu i gyfarfod y Cyngor.

**11.05 Contractio allan.**

Gall y Cyngor a'r Bwrdd Gweithredol gontractio allan i gorff neu sefydliad arall swyddogaethau y gellir eu cyflawni gan swyddog ac sy'n ddarostyngedig i orchymyn o dan adran 70 o Ddeddf Dadreoleiddio a Chontractio Allan 1994, neu o dan drefniadau contractio lle bo'r contractwr yn gweithredu fel asiant y Cyngor o dan egwyddorion contractio arferol, cyn belled nad oes unrhyw ddirprwyo ar wneud penderfyniadau dewisol y Cyngor.